

COFNODION PWYLLGOR GWEITHGAREDDAU Y SIR
A GYNHALIWDYD AR
NOS FERCHER 12^{fed} O IONAWR 2022

CADEIRYDD: Sioned Caryl Davies

YMDDIHEURIADAU: Bleddyn Davies, Annette Jones, Heulwen Evans, Heledd Besent, Elen Skyrme, Glesni Thomas, Endaf Griffiths

PRESENNOL: 25 yn ôl y llyfr presenoldeb

01 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Angharad Evans ac eiliwyd gan Angharad Davies.

02 Materion yn codi o'r cofnodion

Esboniwyd bod y ddawns Nadolig wedi'i ganslo gan fod Pier ddim ar gael, a gormod o rif i'w gynnal yn y Marine. Yn ogystal, daeth cyfyngiadau i rym ar y 26ain o Ragfyr, felly ni fyddai wedi bod yn bosib cynnal y digwyddiad.

03 Gohebiaeth

Nid oedd yna ohebiaeth.

04 Derbyn adroddiadau Pwyllgor Cystadlaethau C.Ff.I. Cymru

Derbyniwyd adroddiad gan Sioned Davies. Mi fydd tystysgrifau yn cael ei rhoi i enillwyr cystadlaethau rhithiol 2020 a 2021.

Show Choir – cystadleuaeth National

Penderfynwyd y byddai yn beth da i'r Sir i gystadlu ynddo. Angen i'r Swyddfa dderbyn enwau erbyn y 19eg o Ionawr. Bydd rheolau a bwriad cystadlu ar y wefan.

Aethpwyd drwy rhestr cystadlaethau Eisteddfod 2022 yn fanwl. Roedd copi o'r testunau yn cael ei rannu gydag aelodau y pwyllgor er mwyn iddynt roi adborth ar y cystadlaethau dan sylw. Roedd angen l Anne dderbyn yr adborth cyn cyfarfod nesaf o'r Eisteddfod ar y 17eg o Ionawr. Codwyd y pwynt bod angen cysondeb yn y cystadlaethau e.e. pa adran oedd y Gân Gyfoes yn ymddangos.

05 Siarad Cyhoeddus Saesneg

Mae angen dychwelyd tlysau / cwpannau mor gynted a phosib. Cysylltwch gyda Anne i'w dychwelyd. Roedd pawb yn hapus gyda'r system am eleni ac roedd canmoliaeth uchel o ran y safon.

06 Siarad Cyhoeddus Cymraeg

Mae angen dychwelyd tlysau / cwpannau mor gynted a phosib. Cysylltwch gyda Anne i'w dychwelyd. Angen dyddiadau Newydd gan fod y gystadleuaeth wedi'i ohirio.

Adran ddarllen - 14 oed neu iau (1 diwrnod)

Adran iau - 16 oed neu iau (1 diwrnod)

Adran ganol - 21 oed neu iau (1 noson)

Adran hyn - 28 oed neu iau (1 diwrnod)

Cynnigwyd wythnos hanner tymor ac ar yr amserau canlynol os oedd y beirniaid ar gael

Adran ddarllen - 14 oed neu iau – 23ain a 24ain yn y nos

Adran iau - 16 oed neu iau – 26ain yn y dydd

Adran ganol - 21 oed neu iau (1 noson) - 25ain yn y nos

Adran hyn - 28 oed neu iau (1 diwrnod) 27ain yn y dydd

07 Ymgeisio am swydd

Roedd 2 aelod wedi ymgeisio hyd yn hyn ond angen iddynt gadarnhau erbyn y 19eg o Ionawr os oeddent dal ar gael i gystadlu.

08 Aelod Hyn a Iau y Sir

Roedd Elliw Dafydd yn ddiolchgar am y flwyddyn ychwanegol o fod yn Swyddog y Sir ac hefyd roedd yn cynnig unrhyw gymorth roedd rhywun yn dymuno cael yn y dyfodol gan nad oeddent wedi gellir gwneud cymaint a byddent yn dymuno o dan reoliadau Covid-19. Bydd cyfweiliadau Aelod Hyn a Iau i'w gynnal ar 6/3/22. Atgoffwyd yr aelodau taw 2 dudalen A4 oedd yn y rheolau eleni. Bydd y rheolau yn cael ei diweddarau a'u rhoi ar wefan y Sir.

09 Gweithgareddau'r Sir

Angen dyddiadau i'r canlynol:

Cwis y Sir

Aros i weld pryd fydd hawl bod nol wyneb yn wyneb

Cwis Iau

Cynigiwyd cynnal y Cwis Iau ddechrau Ebrill yn Neuadd Pontsian a Tregaron.

Chwaraeon Dan do (wedi clustnodi 8/4/22)

Neuadd Llanddewi yn ail agor ym Mis Mawrth gobeithio

Hyfforddiant Iechyd Meddwl gyda DPJ Foundation cyn diwedd mis Mawrth

Roedd y cwrs yn cael ei ariannu ac felly cynigiwyd 15fed o Chwefror ar gyfer cynnal y cwrs yn gymraeg. Cwrs am ddim i aelodau ac arweinyddion dros 18aw oed.

Gala nofio ar 1/4/22

10 Chwaraeon y Sir

Penderfynwyd cynnal 2 gystadleuaeth ar wahan i'r chwaraeon a'r athletau

Chwaraeon yn Llambod 7/5/22

Athletau yn Aberaeron 9/5/22

Penderfynwyd ychwanegu pêl-droed, rownderi a phêl-rwyd i mewn fel cystadlaethau sir.

11 Cystadlaethau NFYFC

Saethu Colomenod Clai 9/7/22 – lot o ddi-ddordeb wedi bod o'r blaen

Coginio yn Malvern 24/9/22

Gosod Blodau yn Malvern 25/9/22

Barnu Gwartheg Godro 15/7/22

Godro: cynnig y siawns i ennillwyr diwrnod maes. Anne i gysylltu â nhw.

3 arall – bwriad allan ar y wefan

12 Rali 2022

Roedd C.Ff.I. Cymru wedi darparu mwy o gystadlaethau eleni ar gyfer y Rali. Penderfynwyd i baratoi amserlen erbyn pwyllgorau mis Mawrth.

Aethpwyd drwy'r rheolau yn fras.

13 Materion arall

Cynigiodd Rhiannon Davies bod y Sir yn cynnig i'r CFFI wneud 'fittest farmer' ar ddiwedd y flwyddyn lle ma athletics arfer bod. Penderfynwyd trafod yn y cyfarfod nesaf.

Sul hwylus y Pasg – roedd Anne yn mynd i edrych i mewn i lefydd i'w gynnal.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____